Vaughan Gething AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/VG/1167/18

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Mawrth 2018

Annwyl Dai,

Diolch i chi am eich llythyr pellach dyddiedig 21 Mawrth ynghylch y broses gaffael ar gyfer systemau meddyg teulu yng Nghymru. Rwy'n falch eich bod o'r un ddealltwriaeth bod y canlyniad, a fydd yn golygu na fydd EMIS Health Ltd yn parhau i ddarparu systemau TG i feddygon teulu o dan y fframwaith newydd, yn deillio o benderfyniad masnachol gan EMIS, ac nad oedd yn ymwneud â gofynion y tendr.

Fel yr ydych yn ei nodi, mae'r cyfnod pontio a'r cymorth a ddarperir yn hanfodol inni allu trosglwyddo i'r fframwaith newydd yn llwyddiannus. Dylid targedu'r cymorth mewn modd sy'n lleihau unrhyw effeithiau ar bractisau cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod trosglwyddo. Rhaid cofio bod gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) brofiad o'r broses hon, ac mae'n gwybod yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, yn ogystal â lle y gellid fod wedi gwella'r cymorth a ddarperir.

Mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Rwy'n falch mai meddyg teulu a rheolwr practis fydd yn arwain y grŵp hwn. Rôl y grŵp fydd goruchwylio'r gwaith o weithredu'r systemau newydd a throsglwyddo iddynt, gan gynnwys diffinio pa gymorth sydd ei angen.

Rydym eisoes wedi ymrwymo i drafod yr anghenion cymorth o fewn y flwyddyn gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (GPC), a hynny ar wahân i'r negodiadau contract blynyddol. Rwy'n cynnig fy mod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi diffinio'r cymorth hwnnw a'i drafod gyda GPC Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ysgrifennu atoch maes o law i roi'r wybodaeth honno ichi, ond yn y cyfamser hyderaf fod y llythyr hwn yn dangos fy mod wedi ymrwymo i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o amharu ar wasanaethau yn digwydd yn ystod y cyfnod gweithredu a bod y cymorth priodol yn cael ei gynnig i feddygon teulu yn ystod y broses hon.

Yn gywir

Vaughan Gething AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services